**Wrth gyrraedd amser pan mae'n rhaid gwneud penderfyniad, beth ddylem ei wneud? Ceisiwch gyngor da**

Mae pawb yn cyrraedd amser yn eu bywydau pan mae'n rhaid gwneud penderfyniad. Gall y penderfyniad ymwneud â'r ysgol, mater ariannol personol, neu berthynas ag anwylyd, neu efallai ynglŷn â swydd - symud i swydd newydd neu ddim.  Dangosir yr egwyddor o geisio cyngor doeth yn y Beibl. Fel caplan Cristnogol, a gaf fi eich annog i geisio cyngor Duw pan fyddwch yn gorfod gwneud penderfyniadau sy'n newid bywyd? Mae'n ddoeth meddwl gyda phwy y gallwn siarad pan fydd angen cyngor neu gyfarwyddyd arnom:
Er enghraifft, gall y 'pwy' rydym yn ceisio cyngor ganddo fod yn gaplan, yn gynghorydd proffesiynol neu'n fentor, y mae pob un ar sail gadarn i roi cyngor da. Wrth edrych ar yr ysgrythur, a gaf awgrymu rhai adnodau i chi eu hystyried:

1) *Diar. 15:22, "Drysir cynlluniau pan nad oes ymgynghori, ond daw llwyddiant pan geir llawer o gynghorwyr."*
2) *Diar. 1:5, "Y mae'r doeth yn gwrando ac yn cynyddu mewn dysg, a'r deallus yn ennill medrusrwydd," Diar. 12:15, "Y mae ffordd y ffôl yn iawn yn ei olwg, ond gwrendy'r doeth ar gyngor."*
3) *Diar. 19: 20, "Gwrando ar gyngor, a derbyn ddisgyblaeth, er mwyn iti fod yn ddoeth yn y diwedd.*

Neu, o bosib,

4) *Diar. 19: 21, "Niferus yw bwriadau meddwl dyn, ond cyngor yr ARGLWYDD sy'n sefyll."*

Mae cyngor doeth yn gymorth i ni geisio gorau Duw i'n bywydau trwy edrych ar faterion o bob ochr. Mae cynghorwyr doeth yn rhoi eu hewyllys a'u dymuniadau eu hunain i Dduw wrth iddynt ofyn am arweiniad. Mae'n well cael cyngor gan y rhai a all helpu i edrych ar fanteision ac anfanteision a chryfderau a gwendidau ein penderfyniadau yn hytrach na gwrando ar y rhai sydd ddim ond yn dweud wrthym beth yr ydym eisiau ei glywed neu'r rhai sy'n ein beirniadu.
Gall dewis cynghorwyr gwael arwain at ganlyniadau trychinebus, felly mae'n bwysig gwybod am beth rydym yn chwilio amdano (gweler stori Rehoboam yn *2 Cron. 10*). Isod ceir rhai o'r nodweddion y dylid chwilio amdanynt wrth chwilio am arweiniad a chynghorwr doeth:

- Yn wirioneddol bryderus amdanoch a naill ai'n gwybod neu'n barod i ddysgu am eich cefndir.
- Yn hysbys i fod yn gadarn yn ei Feibl, yn aeddfed yn ysbrydol, ac yn ymwybodol o'i ddiffygion ei hun.
- Yn fedrus wrth wrando ac yn gofyn cwestiynau da.
- Yn brofiadol, yn wybodus, neu wedi ei hyfforddi yn y maes rydych yn ceisio cyngor yn ei gylch (h.y. defnyddio gweithiwr proffesiynol profiadol wrth wneud penderfyniadau gyrfa).
- Yn ymarfer cyfrinachedd ac yn defnyddio disgresiwn.
- Yn ddiymhongar ac yn addfwyn ond eto'n eich caru digon i ddweud y gwir wrthych neu ddweud wrthych os ydych wedi bod yn camddehongli sefyllfaoedd (hyd yn oed os yw'n brifo).
- Yn rhoi ei farn yn onest ac yn uniongyrchol pan fo angen.

- Yn gallu bod yn wrthrychol yn y sefyllfa.

Dylech geisio sefydlu pwyntiau cyfeirio da o ble ac i bwy y gallwch ofyn am gynghorwr da. Efallai y byddwch hyd yn oed eisiau ceisio cyngor gan unigolion neu sefydliadau sydd wedi rhoi cymorth i chi yn y gorffennol.

Yng ngoleuni'r ysgrythur a'r penderfyniadau pwysig fydd yn eich wynebu yn eich bywyd, a gaf i ddweud wrth gloi, ceisiwch gyngor da.

Diolch i chi am eich amser.

Tanya Herring, Caplan Cynulliadau Duw Bangor ydw i, galwlch gysylltu â mi trwy’r manylion a ddarperir ar wefan Caplaniaeth Prifysgol Bangor.